# Cofnodion Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y grŵp trawsbleidiol:** | Camddefnyddio Sylweddau a Dibyniaeth |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 10.03.2022 |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Seminar 1 a 2, Adeilad y Pierhead, Caerdydd |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Peredur Owen Griffiths AS/MS | Plaid Cymru Aelod o'r Senedd yn cynrychioli Dwyrain De Cymru |
| Lynne Neagle AS/MS | Llafur Cymru, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant |
| Caroline Phipps | Prif Swyddog Gweithredol, Barod |
| Gareth Llewellyn | Staff Cymorth yr Aelod |
| Cris Watkins | Swyddog Ymgyrchoedd a Chyfathrebu, Kaleidoscope |
| Rhestr Ddosbarthu'r Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer y Sector Cyfan | |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

**Sylwadau agoriadol a materion ffurfiol**

Croesawodd Peredur Owen Griffiths AS bawb i drydydd cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gamddefnyddio Sylweddau a Dibyniaeth. Diolchodd i'r siaradwyr, George Charlton a Rondine Molinaro, am rannu eu profiadau personol, a diolchodd hefyd i Lynne Neagle, y Dirprwy Weinidog Iechyd, am ddod i gymryd rhan yn y drafodaeth. Nododd hefyd mai dyma sesiwn gyntaf y Grŵp hwn i gael ei chynnal ar ffurf hybrid. 'Mae'r Grŵp Trawsbleidiol hwn yn le diogel i drafod camddefnyddio sylweddau a dibyniaeth, ac i addasu polisi yng ngoleuni profiad byw'.

Nododd Peredur fod cefndir y Grŵp Trawsbleidiol hwn yn cynnwys y camau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr Ysgrifennydd Cartref i gyflwyno sancsiynau mwy llym ar ddefnyddwyr cyffuriau.

'Yr hyn sy'n bwysicach [na ffactorau allanol] yw'r pethau y gallwn eu gwneud gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol'

**Nod y digwyddiad hwn oedd archwilio cynrychiolaeth ymhlith cymheiriaid, cyd-gynhyrchu, a stigma.**

## Crynodeb o bwyntiau'r siaradwyr:

### Cyflwyniad

Gofynnodd George Charlton i'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod: 'Sut ydych chi'n teimlo am y syniad mai pobl sy'n gaeth i gyffuriau yw'r rhai sy'n llunio polisïau ar gyffuriau?'

Yna, cyflwynodd ei brofiad byw ei hun o ran defnyddio sylweddau a bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Siaradodd hefyd am y ffaith ei fod bellach wedi ennill Gradd Meistr, y ffaith ei fod yn rhedeg ymgynghoriaeth hyfforddi, a'r ffaith ei fod yn aelod o fwrdd Kaleidoscope, elusen ym maes cyffuriau ac alcohol.

Siaradodd Rondine Molinaro am ei thaith ei hun: ei phrofiad o fod yn y carchar mewn gwlad trydydd byd; bod yn ddigartref ar strydoedd Llundain; bod yn gaeth i gyffuriau crac a heroin; ac yna gweithio yn y gwasanaethau cyffuriau ac alcohol a dod yn bennaeth ar wasanaeth Gwent.

### Rondine Molinaro

Pennaeth Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent (GDAS)

Siaradodd Rondine am esblygiad y system o gyfranogiad gan ddefnyddwyr gwasanaethau yng Ngwent – gwaith a ddechreuodd gyda chegin dan arweiniad cymheiriaid yn 2008. Roedd y syniad o roi cyfle i gymheiriaid gymryd rôl arwain yn hynod radical, gan ysgogi un defnyddiwr gwasanaethau i ddweud: 'Rŷch chi'n wallgof...byddan nhw'n dwyn yr arian parod o'r god'. Yn ystod yr holl flynyddoedd y bu'r caffi ar agor, dim ond unwaith y collodd unrhyw arian – swm o £7. Talwyd y cymheiriaid am eu gwaith. Yn 2012, datblygodd Caffi Barod Tyfa y cysyniad hwn ymhellach, ac roedd yn cynnwys gwasanaethau cynnal a chadw ar gyfer cartrefi.

Rhannodd Rondine luniau o'r cymheiriaid cyntaf a oedd yn gweithio yng Ngwent, a thynnodd sylw at y nifer ohonynt sydd bellach wedi cael swyddi arwain yn eu meysydd gwaith.

Roedd defnyddwyr gwasanaethau yn rhan o'r adolygiad ynghylch Cyfnewid Nodwyddau (NEX) a gynhaliwyd yn 2013 gan Heidi Anderson. Cafodd yr adolygiad hwnnw ei ddefnyddio fel sail ar gyfer yr adolygiad NEX o dan arweiniad cymheiriaid a gynhaliwyd ym Mhowys eleni. Mae'r broses o werthuso dan arweiniad cymheiriaid bellach yn rhan ganolog o'r gwaith a wneir yn y gwasanaeth cyffuriau ac alcohol, gan gynnwys

astudiaeth o effaith COVID yn 2020, ac adolygiad yn 2022 o'r profion a gynhaliwyd ar Buvidal, amnewidyn opiadau, yng Nghymru.

Tynnodd Rondine sylw at yr elfennau allweddol y mae eu hangen i sicrhau bod y drefn gyd-gynhyrchu yn ffynnu:

- **Mynediad** – rhoi'r un hawliau mynediad i gymheiriaid â staff
- **Ymddiriedolaeth** – cynnwys defnyddwyr gwasanaethau o ddechrau'r broses hyd at y diwedd; er enghraifft, y daflen bwrpasol ynghylch Benzodiazepine, a gafodd ei hysgrifennu gan ddefnyddwyr gwasanaethau ac a oedd ar eu cyfer hefyd
- **Cynhwysiant** – cymheiriaid yn mynd i gyfarfodydd staff ac yn cynorthwyo astudiaethau fel yr adolygiad o'r isafswm pris ar alcohol
- **Buddsoddi, a darparu cyllid ac adnoddau** – dyma'r elfen bwysicaf, ac mae'n cynnwys buddsoddi mewn aelod o staff llawn amser fel Arweinydd Cyd-gynhyrchu â phrofiad byw, a buddsoddi yn y broses o hyfforddi cymheiriaid i ddeall y gwasanaethau'n llawn, fel y gallant ymgymryd â rolau arwain
- **Newid Diwylliant** – mae rhywfaint o bryder o hyd ymhlith staff ynghylch y posibilrwydd y gallai'r cymheiriaid 'gymryd drosodd'. Mewn gwirionedd, bydd angen cymysgedd o sgiliau a phrofiad bob amser
- **Cydnabyddiaeth** – mae ymweliadau i wasanaethau gan unigolion fel Lynne Neagle AS, a ddiolchodd i gymheiriaid am eu cyfranogiad, yn amhrisiadwy
- **Ysbrydoliaeth** – gwelodd y grŵp un o gymheiriaid Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent yn hyfforddi Comisiynydd Cenedlaethol Portiwgal ynghylch Cyfnewid Nodwyddau mewn perthynas â'r defnydd o Naloxone. Mae'r awdurdodau ym Mhortiwgal wedi cael eu hysbrydoli gan y gwasanaeth cymheiriaid a gynigir yng Nghymru mewn perthynas â Naloxone
- **Stigma** – mae cymheiriaid wedi hyfforddi swyddogion yr heddlu ac maent yn asiantau gweladwy ar gyfer newid. Cerddodd un o'r cymheiriaid i mewn i'w archfarchnad leol, lle'r oedd wedi cael ei herio eisoes gan staff diogelwch ynghylch honiadau o ddwyn. Gwnaeth un aelod o staff a oedd wedi ei herio yn y gorffennol sôn ei fod wedi ei weld ar y newyddion ar y teledu, yng nghyd-destun ei waith gyda chymheiriaid, a rhoddodd glod iddo.

Anogodd Rondine yr holl gyfranogwyr i herio'r cyfryngau ynghylch unrhyw ddefnydd o iaith sy'n gallu arwain at stigma. Gorffennodd drwy ddweud bod angen inni wneud mwy o ymdrech i 'fynd y tu allan i'n swigen' ac i ymgysylltu â chymunedau lleol. Dywedodd fod angen inni gydnabod hefyd nad oes gan bob defnyddiwr gwasanaethau yr un cyrchfan, a bod rhai o'n gweithwyr sy'n gymheiriaid yn defnyddio sylweddau ar hyn o bryd, ac efallai y byddant yn parhau i wneud hynny.

**Lincs defnyddiol:**

- Rondine Molinaro ar Twitter:

  **https://www.twitter.com/RondineM**
- Gwefan Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent:

https://www.gdas.wales

**George Charlton**

Hyfforddwr ac ymgynghorydd ym maes rhaglenni ymwybyddiaeth ynghylch cyffuriau ac alcohol ac atal niwed.

Dechreuodd George drwy egluro ei grys-t, a oedd yn dweud: 'Nice people take drugs'. Siaradodd am sut mae stigma'n lladd, ac am y ffaith bod dangos cariad a thosturi i'r rhai sy'n cymryd cyffuriau yn gallu achub bywydau.

Rhannodd George ddelweddau a oedd yn dangos defnyddwyr cyffuriau yn anymwybodol neu'n farw, yn gorwedd ar y stryd, tra bod aelodau'r cyhoedd yn cerdded heibio. Dangosodd y gofodau adfeiliedig a budr lle mae gofyn iddynt gymryd eu cyffuriau neu y mae'n rhaid iddynt fyw, gan eglurodd sut mae iaith y cyfryngau yn trin defnyddwyr cyffuriau fel isddosbarth. 'Pe bai'r un iaith yn cael ei defnyddio i ddisgrifio grŵp ethnig, byddai'n cael ei hystyried yn iaith casineb'. Roedd un ddelwedd yn dangos sgwat yn llawn sbwriel cyffuriau. Eglurodd George fod merch 19 oed o dan bentwr o garpiau, a oedd yn gweithio yn y diwydiant rhyw er mwyn codi arian i brynu crac. Fodd bynnag, ond pan ddaeth swyddogion yr heddlu ar ei thraws, yn hytrach na'i helpu, gwnaethant ei symud ymlaen.

Tynnodd George sylw hefyd at y rhagrith sydd ynghlwm wrth agwedd y DU tuag at gyffuriau. Dangosodd lun a gymerwyd o ffrwd cyfryngau cymdeithasol un o'r heddluoedd a oedd yn falch o fod wedi dod o hyd i ddau blanhigyn canabis mewn cartref, wrth ymyl llun o'r fferm fwyaf yn Lloegr lle tyfir canabis meddygol. Y DU yw allforiwr canabis meddygol mwyaf y byd, gan allforio 90 tunnell y flwyddyn.

Rhannodd George ei stori bersonol ingol ei hun, am y ffaith iddo ddioddef cam-drin rhywiol, corfforol a seicolegol yn blentyn. Nid oedd y plentyn 8 oed hwnnw yn 'junkie' nac yn 'smack head' nac yn 'zombie', fel y byddai'r wasg yn disgrifio'r person hwnnw wedi iddo dyfu'n oedolyn, meddai. Yn hytrach, plentyn ydoedd, a glywodd gan yr Offeiriad a wnaeth ei gam-drin yn rhywiol na fyddai unrhyw un yn ei gredu.

O ran y bobl hynny sydd wedi cael 4 neu fwy o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs), clywodd y Grŵp eu bod yn 11 gwaith yn fwy tebygol o gymryd cyffuriau a 7 gwaith yn fwy tebygol o fod yn rhan o ddigwyddiad treisgar a mynd i'r carchar. Pwysleisiodd George nad yw pobl yn cam-drin cyffuriau; yn hytrach, maent yn cymryd cyffuriau i ymdopi â'r trawma y maent wedi'i brofi. Yn yr un modd, nid problem yw cyffuriau; yn hytrach, ateb y defnyddiwr ydyw i'r problemau enfawr y mae wedi'u profi mewn bywyd.

Cafodd y Grŵp ei atgoffa bod arolygon yn dangos bod 9 y cant o boblogaeth y DU wedi defnyddio cyffur anghyfreithlon y llynedd.

Gofynnodd George: 'Beth ydych chi'n ei wneud gyda phobl sydd wedi colli eu heneidiau? Rydych chi'n dangos cariad tuag atynt.' Yn ei achos ef, enillodd wobrau, ac enillodd radd

Meistr (heb iddo erioed gael cymhwyster TGAU yn yr ysgol). Erbyn hyn, mae ganddo ferch sy'n gadet gyda'r Heddlu ac un arall sy’n astudio troseddeg.

Tynnodd George sylw at yr achos dros Driniaeth â Chymorth Diamorffin, gan nodi bod cost y driniaeth yn llai na £20,000 y flwyddyn, tra bod y gost o garcharu person yn £60,000 y flwyddyn. Nododd ein bod eisoes yn rhagnodi opiadau fel mater o drefn, a bod ei Nain ei hun yn gaeth i gyffuriau yr oedd yn eu cael drwy bresgripsiwn gan Feddyg Teulu. Mae opiadau yn cael eu rhagnodi'n gyfreithlon ar gyfer 'hen wraig fach sy’n gwneud jam' ond sy’n dioddef o boen corfforol. Ac eto, mae pobl sy'n cymryd opiadau i ddelio â phoen seicolegol yn cael eu stigmateiddio a'u troseddoli. Tynnodd sylw at y ffaith bod y profiad o fynd i’r carchar yn drawmatig ynddo’i hun, a’i bod yn wrthnysig bod cymdeithas yn gosod y stigma a’r trawma hwnnw ar y rhai sydd eisoes wedi dioddef trawma. Nododd hefyd fod nifer y marwolaethau’n parhau i gynyddu pob blwyddyn, ond bod Llywodraeth San Steffan yn parhau i wneud yr un pethau.

Trodd George at y broses o gyd-gynhyrchu a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gan ganmol rhaglen cymheiriaid Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent ar Naloxone (gwrthdroi gorddosau), ynghylch y ffaith nad yw’n cynnwys unrhyw rwystrau o ran cyfranogiad. Wrth gael gwasanaethau eraill, mae disgwyl i bobl fod yn sobr am chwe mis er mwyn gwirfoddoli ar gyfer rôl ddi-dâl; yn y cyfamser, mae’r staff sy’n gweithio yn y rhaglenni hynny yn gallu goryfed ar y penwythnosau ond yn gallu parhau i fod ar y gyflogres. Dywedodd fod cymheiriaid yn haeddu cael eu talu mewn arian parod fel pawb arall; bod enghreifftiau fel Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent yn dangos y gall cymheiriaid arwain prosiect, yn hytrach na chael eu gwasanaethu gan y prosiect; a bod y stigma yn gallu diflannu os yw cymheiriaid yn cael 'gwisg', sef bathodyn, hwdi a chrys-t, sy’n costio cyfanswm o £33 ond sy'n gwneud i gymheiriaid deimlo ‘fel brenhinoedd a breninesau’.

Clywodd y grŵp fod y broses o gyflwyno’r rhaglen cymheiriaid ynghylch Naloxone, a ddechreuwyd dwy flynedd yn ôl, yn dod i ben yr wythnos hon yn Nyfed. Golyga hyn mai Cymru yw’r genedl gyntaf yn y byd sydd wedi cyflawni hyn.

Cymeradwyodd y grŵp waith y cymheiriaid.

Pwysleisiodd George nad yw hyn yn digwydd mewn mannau eraill yn y DU, a bod Cymru wedi cyflawni rhywbeth arbennig. Daeth â’i gyflwyniad i ben drwy dynnu sylw at y gefnogaeth eithriadol a welwyd ledled Cymru, gan nodi y dylai hynny arwain at y rhaglenni a ganlyn a arweinir gan gymheiriaid dros y ddwy flynedd nesaf: Sbwriel Cyffuriau, Profion Smotyn Gwaed Sych, Gofal Clwyfau, Atal Cenhedlu ac Iechyd Rhywiol.

Diolchodd i arweinwyr y Byrddau Cynllunio Ardal ledled Cymru sydd wedi hwyluso'r rhaglenni hyd yn hyn.

**Lincs defnyddiol:**

- George Charlton ar Twitter:

  **https://www.twitter.com/GBMC73**
- Gwefan George:

https://georgecharlton.com/

- Naloxone Man ar Twitter:

  https://www.twitter.com/NaloxoneMan

**Lynne Neagle, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**

Dechreuodd Lynne drwy ddweud nad oedd hi wir yn teimlo ei bod yn gallu dilyn cyflwyniad mor ddirdynnol â chyflwyniad George, ond ei bod yn bwysig iawn iddi glywed y cyflwyniad hwnnw. Diolchodd i'r cyflwynwyr am roi cymaint iddi feddwl amdano, fel Gweinidog. Ers iddi ddechrau yn y rôl honno, mae wedi cael ei tharo gan ymrwymiad pobl yn y sector, yn enwedig cymheiriaid.

Nododd Lynne y dull gweithredu gwahanol a ddilynir yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar leihau niwed, ac sy'n cael ei gefnogi gan gyllid wedi'i neilltuo. Nododd fod Heddlu Cymru hefyd yn canolbwyntio ar leihau niwed. Mae swm o £50 miliwn mewn cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r portffolio Iechyd Meddwl, gan gynnwys peth cyllid sydd wedi cael ei fuddsoddi yma – er enghraifft, mewn anghenion cymhleth a'r Gwasanaeth Di-waith (a ariannwyd yn flaenorol gan yr UE), yn ogystal â swm o £3 miliwn sydd wedi'i fuddsoddi yn Buvidal eleni.

Dywedodd Lynne fod un farwolaeth yn ormod, a bod angen edrych y tu hwnt i'r prif rifau ar farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a deall sut i weithredu.
Dywedodd Lynne y bydd cynllun newydd ynghylch camddefnyddio sylweddau yn cael ei ddatblygu i Gymru, ac y bydd y cynllun hwnnw'n cynnwys mewnbwn gan wasanaethau ac yn cael ei Gyd-gynhyrchu gyda Defnyddwyr Gwasanaethau.

**Lincs defnyddiol:**

- Gwefan Lynne Neagle fel aelod o'r Llywodraeth:

  https://llyw.cymru/lynne-neagle

- Lynne Neagle AS ar Twitter:

  https://www.twitter.com/lynne_neagle

## Crynodeb o'r Cwestiynau, y Sylwadau a'r Awgrymiadau a Wnaed:

C. (Arfon Jones) Gwnaeth nifer y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau yng Nghymru gynyddu 40 y cant, o 149 i 210, yn 2020/21, er gwaethaf llwyddiannau Naloxone a Buvidal. Mae'n amlwg bod mwy o weithgareddau y dylem fod yn eu gwneud i leihau niwed, fel darparu Triniaeth â Chymorth Heroin a phibellau Crac. Beth yw cynlluniau'r Gweinidog i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau yng Nghymru?

A. (LN) Y ffocws ar hyn o bryd yw deall beth sydd y tu ôl i'r nifer o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a gweithredu ar y sail honno. Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar iawn am yr adolygiad

cymheiriaid o Buvidal, ac mae'n awyddus i barhau i weithio ar y buddion trawsnewidiol a adroddwyd gan nifer o bobl a gafodd y driniaeth honno.

C. A oes yna lwybr gwleidyddol sy'n arwain at Ystafelloedd ar gyfer Defnyddio Cyffuriau yng Nghymru?

A. (LN) Mae Cymru'n parhau i ymgysylltu'n dda â gwledydd eraill y DU, ac mae pob un ohonynt – ac eithrio Lloegr – yn arddel dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar leihau niwed. Mae'n amlwg nad yw Llywodraeth y DU yn bwriadu edrych ar Ystafelloedd ar gyfer Defnyddio Cyffuriau, ac nid oes unrhyw arwydd o newid yno.

Sylwadau. (GC) Diffiniad Einstein o wallgofrwydd yw 'gwneud yr un peth dro ar ôl tro, gan ddisgwyl canlyniad gwahanol'. Nid yw cyfreithiau cyffuriau y DU, a basiwyd ym 1971, wedi'u seilio ar dystiolaeth na gwyddoniaeth, ac nid ydynt erioed wedi cael eu hadolygu. Byddwn yn cyrraedd pwynt lle bydd gweithredwyr fel Peter Krykant yn rhoi eu hunain mewn perygl o gael eu harestio er mwyn achub bywydau, a bydd y rhai sy'n ymgyrchu dros newid deddfwriaethol yn defnyddio'r wasg i ddangos bod angen i'r DU gael marchnad gyffuriau wedi'i rheoleiddio'n gyfreithiol.

C. Beth yw'r sylfaen ar gyfer llwyddiant o ran cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau mewn modd cynaliadwy?

A. (RM) Arian. Mae angen mentora a hyfforddiant ar gymheiriaid. Nid yw darparu cymorth yn aruthrol o ddrud, fel y dangosir gan Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent. Soniodd Rondine am o un o'r cymheiriaid presennol, a oedd wedi cael triniaeth am 10 mlynedd cyn cymryd rhan yn y rhaglen cymheiriaid. Mae bellach wedi cymryd cam trawsnewidiol ymlaen ac yn gwneud cais am swydd amser llawn. Dylai comisiynwyr orfodi darparwyr i neilltuo cyllid yn eu cyllidebau ar gyfer cyd-gynhyrchu o hyn ymlaen, ac i nodi hyn yn y fanyleb. Nododd fod Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent yn talu'r un gyfradd fesul awr i gymheiriaid â'r hyn a delir i staff rheng flaen.

Nododd Caroline Phipps fod Rondine yn rhy ddiymhongar i ddweud hyn, ond bod arweinyddiaeth yn ffactor allweddol o ran sicrhau bod y broses o gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei hymgorffori a'i dangos o fewn gwasanaeth.

Dywedodd George Charlton ei bod yn hanfodol cwestiynu'r hyn y credwn ein bod yn ei wybod, a pharhau i ofyn i ddefnyddwyr gwasanaethau a ydym yn darparu'r hyn y maent ei angen.

Sylwadau. Mae ein hiaith yn rhwystr. Rydym yn siarad am 'grwpiau anodd eu cyrraedd', ond y darparwyr gwasanaethau sy'n gosod rhwystrau yn eu lle, sy'n golygu na all y grwpiau hynny ein cyrraedd ni. Mae'r rhaglen cymheiriaid ar gyfer Naloxone yn dangos ei bod yn hawdd cyrraedd grwpiau na fyddai gwasanaethau wedi gallu eu cyrraedd fel arall.

Nododd George Charlton ei bod yn hanfodol i bobl adael eu hadeiladau a sgriniau eu cyfrifiaduron, a mynd allan i'r gymuned.

C. Rydym yn cynnig pethau fel rhaglenni cyfnewid nodwyddau a ffoil; a fyddai modd inni gael llythyr cysur at ddibenion darparu Pibellau Crac?

A. (LN) Nid yw llawer o'r ddeddfwriaeth yn bodoli yng Nghymru, ond rydym yn gweithio ar ffordd i wneud i rywbeth ddigwydd.

C. Sut mae ymwreiddio dull 'dim drws anghywir' a arweinir gan drawma?

A. (LN) Rydym wrthi'n gweithio ar y broses o chwalu rhwystrau. Yn ddiweddar, lansiwyd fframwaith polisi ynghylch trawma. Rydym wedi ymrwymo i newid diwylliant a gweithio mewn

ffordd sy'n seiliedig ar drawma. Rydym angen dull ‘dim drws anghywir’, gan ganolbwyntio ar bobl wrth lunio gwasanaethau yn hytrach nag i’r gwrthwyneb. Mae cyd-gynhyrchu yn ganolog i hynny.

Sylw (CP) Mae stigma hefyd yn parhau i fodoli yn ein gwasanaethau, ac mae angen ei herio'n rheolaidd.

Sylw (GC) Mae angen inni fod yn fwy tosturiol. Mae llawer o bobl sy'n cael eu hystyried fel unigolion 'nad ydynt yn ddigon sâl' i fod angen cymorth neu'n 'rhy sâl' i gael mynediad ato.

C. (PG) Sut ydym yn gweithredu'r strategaeth ‘dim drws anghywir’ a sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddosbarthu i'r lle iawn yn hytrach na chanolbwyntio ar y broses hirfaith o lunio adroddiadau a chwilio am grantiau?

A. (LN) Dyma’r hen broblem o orfod mynd drwy’r felin i gael arian, ac yna mae'r broses gyfredol yn newid ac mae gofyn i chi fynd drwy’r felin eto. Mae’n bosibl y byddai symud tuag at gyfundrefn o setliadau tymor hwy gan y Llywodraeth, ynghyd â chontractau gwasanaeth tymor hwy, yn helpu.

Sylw (CP) Mae gan y trydydd sector rôl allweddol o ran gyrru'r agenda a herio’r drefn.

C. (Danny Antebi) Mewn sectorau eraill, mae manylebau a thendrau yn cael eu cyd-gynhyrchu gan bartneriaethau, ac mae defnyddwyr gwasanaethau yn rhan o'r broses o greu manylebau.

A. (LN) Byddaf yn cymryd y neges honno yn ôl. Mae angen sicrhau bod y broses yn un dryloyw sy’n diogelu meysydd allweddol.

Sylw (GC) Mae Cymru ar flaen y gad. Dylem ganolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei wneud. Mae’r broses o adfer, ynghyd â’r broses o gyd-gynhyrchu, yn gallu ymledu. Dylai Cymru deimlo balchder.

C. (Arfon Jones) Faint o swyddogion yr heddlu yng Nghymru sydd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio Naloxone? Cytunodd Prif Gwnstabl Gogledd Cymru i weithredu ar hyn 18 mis yn ôl. A yw wedi digwydd?

A. (CG) Mae'r Prif Arolygydd yng Ngwent yn rhan o’r grŵp llywio Naloxone a arweinir gan gymheiriaid. Mae grwpiau'n gwahodd swyddogion uwch, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhannu ar y lefel gywir a’i bwydo yn ôl i staff ar lefelau is. Cafodd y tîm Naloxone ym Merthyr ei enwi gan heddwas. Mae Prif Swyddog Heddlu Powys yn hyrwyddo’r broses o leihau niwed, ac mae enghreifftiau o uwch swyddogion yn ceryddu swyddogion ar lefelau is os ydynt yn ymddwyn mewn modd rhwystrol neu mewn modd sy’n atgyfnerthu stigma. Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno Naloxone ar draws yr heddlu.

-------------

Sylwadau eraill a ymddangosodd yn y blwch sgwrsio ar-lein:

- Defnyddio profiadau cymheiriaid, cyd-gynhyrchu, mynd i'r afael â stigma drwy gymryd gofal o ran yr iaith a ddefnyddir, mynd i galon cymunedau. Waw! Ie, Rondine, mi wnes i anghofio sôn am y graddau yr oeddech yn rhan o’r broses o fod yn arbenigwr drwy brofiad!
- Mae’r ffaith bod pob un o'r saith Bwrdd Cynllunio Ardal sy'n gweithredu rhaglenni cymheiriaid ar gyfer Nalaxone yn gyflawniad/nod mor wych, a dylem fod yn falch ohono.
- Mae gwaith hollol wych yn cael ei wneud o fewn y gyllideb sydd ar gael. Pa mor hir y mae'n rhaid inni aros cyn i iechyd meddwl pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau ddod yn rhan annatod ac integredig o'r 'llinyn aur' o fewn y driniaeth a

gynigir, ac yn cael sylw fel rhan o'r driniaeth honno? Soniodd y comisiynydd blaenorol yn aml am ddwyn iechyd meddwl a diagnosis deuol – cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd, ac ati – ynghyd o dan yr un ymbarél. Hoffem weld hyn yn cael sylw, a hoffem weld mwy o gwnsela yn cael ei ddarparu i bawb sy'n ymuno â Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro.

- Mae Heddlu Gogledd Cymru ar fin cyflwyno chwistrelliadau trwyn Naloxone ar draws yr ardal yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yn Sir y Fflint
- Gall y ffigurau ynghylch marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau gael eu hystumio gan COVID. Mae'n bosibl na fydd y ffigurau ar gyfer y cyfnod adrodd yn hollol gywir yn sgil yr amser ychwanegol a gymerir i brosesu achosion, o'r farwolaeth dan sylw i adroddiad y Crwner.
- Mae'r heddlu ym mhob un o'r Byrddau Cynllunio Ardal wedi bod yn wirioneddol gefnogol i'r fenter cymheiriaid ar gyfer Naloxone o ddechrau'r cynllun peilot yng Nghastell-nedd Port Talbot ym mis Ebrill 2020.
- Rwyf am weld y Llywodraeth yn cefnogi'n llwyr yr holl fentrau hyn ar gyfer lleihau niwed, ac yn dechrau hysbysebu nid yn unig llinell gymorth 24/7 DAN, ond efallai sicrhau bod gwasanaeth profi cyffuriau WEDINOS, sy'n wasanaeth rhad ac am ddim, ar gael i Gymru gyfan hefyd, ynghyd â llawer o wasanaethau eraill y gallwn feddwl amdanynt sy'n hanfodol i ddefnyddwyr cyffuriau. Peidiwch â chuddio y tu ôl i linell gymorth DAN.

---------------

Diolchodd Peredur i'r siaradwyr ac i'r rhai yn y gynulleidfa sy'n achub bywydau bob dydd, a hynny gan sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Nododd y bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol yn cael ei gynnal ar raddfa fwy ac yn cynnwys trafodaethau bord gron. I gloi, anogodd bawb i gyflwyno eu hunain i un person nad oeddent yn ei adnabod cyn heddiw,  a hynny cyn gadael y cyfarfod.

I gloi, cyflwynodd Caroline Phipps her o ran yr iaith a ddefnyddir. Gofynnodd i'r Gweinidog a'r grŵp ystyried defnyddio'r term 'defnyddio sylweddau' yn hytrach na 'chamddefnyddio sylweddau'. Dywedodd Peredur y gallai'r grŵp drafod y mater hwnnw yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.